Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes

# CYNLLUN CORFFORAETHOL GYRFA CYMRU

## 2002 - 2005

## Tudalen Gynnwys

| | |
|---|---|
| Tudalen 2. | Cyflwyniad |
| Tudalen 3. | Rhagdybiaethau a Chyfeiriad Strategol |
| Tudalen 4. | Nodau Strategol |
| Tudalen 5. | Strategaethau ac Amcanion |
| Tudalen 6. | Amcanion Strategol |
| Tudalen 7. | Amcanion Strategol |
| Tudalennau 9 - 11 | Atodiad - Asesiad o'r Farchnad |

## Cyflwyniad

Roedd y Cynllun Gweithredu Addysg a Hyfforddiant i Gymru yn cynnig y dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru sefydlu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd cenedlaethol ar gyfer pobl o bob oed - "Gyrfa Cymru" – erbyn mis Ebrill 2001. Ar 1af Ebrill 2001 fe lansiwyd brand a strategaeth Gyrfa Cymru, gan sefydlu fframwaith cenedlaethol ar gyfer darparu gwasanaeth ar gyfer pobl o bob oed gan gynnig gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd dwyieithog ar gyfleoedd gyrfa a chyfleoedd dysgu.

Mae'r 7 Cwmni Gyrfa yng Nghymru sydd bellach yn gweithredu dan faner Gyrfa Cymru yn gyfrifol am ddarparu'r Gwasanaeth Gyrfa statudol, y Fenter Cyfarwyddyd i Oedolion a Chyswlltdysgu, elfennau o Gysylltiadau Addysg Busnes a chynllun Porth Ieuenctid. Bydd y ddarpariaeth hon yn adeiladu ar arferion gorau'r Cwmnïau Gyrfa a pheth o'r gwaith roedd y Cynghorau Hyfforddiant a Menter yn gyfrifol amdano yn y gorffennol.

Fe fydd gweithgareddau Gyrfa Cymru yn canolbwyntio ar nodau allweddol cynllun strategol y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer Cymru, sef 'www.gwellcymru.com', yn enwedig "Gwell Cyfleoedd ar gyfer Dysgu".

## Strwythur

Mae yna 7 o Gwmnïau Gyrfa yng Nghymru sy'n gweithredu dan faner Gyrfa Cymru. Mae pob un ohonynt yn cael eu hariannu drwy gontract â'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae ffiniau'r cwmnïau yn gyson, ar y cyfan, â strwythur y cynghorau sir oedd yn bodoli pan sefydlwyd y cwmnïau gyntaf fis Ebrill 1995. Sef:

- **Gyrfa Cymru Caerdydd a'r Fro** (Caerdydd a Bro Morgannwg)
- **Gyrfa Cymru Gwent** (Casnewydd, Tor-faen, Blaenau Gwent, Dwyrain Caerffili a Sir Fynwy).
- **Gyrfa Cymru Powys** (Powys)
- **Gyrfa Cymru Gogledd Orllewin** (Conwy, Gwynedd, Ynys Môn a rhan Rhuddlan o Sir Ddinbych)
- **Gyrfa Cymru Morgannwg Ganol** (Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr a Gorllewin Caerffili)
- **Gyrfa Cymru Gorllewin** (Castell-nedd, Port Talbot, Abertawe, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Ceredigion)
- **Gyrfa Cymru Gogledd Ddwyrain** (Sir y Fflint, Wrecsam a rhan ddwyreiniol o Sir Ddinbych)

Sefydlwyd Cymdeithas Gyrfa Cymru (CGC) fel cyd-fenter y Cwmnïau Gyrfa i gynyddu proffil cyfarwyddyd gyrfaoedd drwy'r wlad, i ddylanwadu ar ddatblygiad polisïau cenedlaethol perthnasol, ac i sicrhau bod Gyrfa Cymru wrth galon datblygiadau strategol sy'n ymwneud â dysgu gydol oes, cynhwysiant cymdeithasol a ffyniant economaidd. Ymgorfforwyd CGC fis Mawrth 2000. Mae'n gwmni cyfyngedig gan warant sy'n cael ei ariannu gan bob un o'r Cwmnïau Gyrfa yng Nghymru.

**Cwestiynau:**

**Ydych chi'n teimlo bod gennych ddigon o wybodaeth am Gymdeithas Gyrfa Cymru a'r saith Cwmni sy'n Aelodau ohoni?**

**Os nad ydych, pa wybodaeth bellach ydych chi ei hangen?**

<u>Rhagdybiaethau</u>

Wrth ddatblygu'r Cynllun hwn, fe ragdybiwyd y canlynol:

1. Fe fydd yr adnoddau a fydd ar gael yn ddigonol i fodloni'r galw am ein gwasanaethau.
2. Fe fydd yna alw cynyddol am ein gwasanaethau.
3. Fe fyddwn yn ymwneud mwy â phrosiectau partneriaeth y mae Ewrop yn eu noddi.

**Cwestiynau:**

**Ydych chi'n cytuno â'n rhagdybiaethau wrth ddatblygu ein cynllun?**

**Oes yna unrhyw ffactorau eraill rydych o'r farn y mae angen inni eu hystyried?**

<u>Cyfeiriad Strategol Gyrfa Cymru</u>

Wrth gyfosod y materion a godwyd yn y Cynllun Gweithredu Addysg a Hyfforddiant a 'www.gwellcymru.com', mae Gyrfa Cymru wedi nodi mai'r canlynol yw ei hanfodion strategol allweddol:

<u>Gweledigaeth</u>

**Gyrfa Cymru – wrth galon ffyniant economaidd a chymdeithasol**

<u>Datganiad o Genhadaeth</u>

**Datblygu pobl trwy gynllunio gyrfa gydol oes.**

Er mwyn i Gymru gael ei chydnabod yn wlad dysg, mae'n rhaid sicrhau bod cynyddu'r cyfranogiad o Ddysgu Gydol Oes yn flaenoriaeth i ni. Derbynnir yn eang bellach:

- Fod datblygu adnoddau dynol yn ganolog i unrhyw strategaeth ar gyfer y dyfodol.
- Mai ein pobl yw'r adnodd mwyaf cynaliadwy yng Nghymru
- Fod angen buddsoddi yn y "cyfalaf cymdeithasol" hwn.

Mae angen inni alluogi pobl i oroesi a ffynnu yn yr economi newydd y mae gwybodaeth yn ei yrru, drwy eu helpu i ddod yn fwy cyflogadwy.

Bellach, gall Gyrfa Cymru gynnig gwell cydlyniad wrth ddarparu Cyfarwyddyd Gyrfaoedd a'r profiadau dysgu sydd ar gael drwy brofiad gwaith, mentora a chymell, a thrwy ymwybyddiaeth o fusnes a menter. Felly, mae gan Gyrfa Cymru ran hanfodol i'w chwarae wrth ddiwallu anghenion cymdeithas sy'n dysgu ac wrth ysgogi twf economi Cymru. Mae ein gwasanaethau yn ffactor allweddol wrth ddatblygu adnoddau dynol, gwireddu'r potensial i'r eithaf, a datblygu gweithlu o'r radd flaenaf.

**Cwestiynau:**

**Ydych chi'n cytuno â'r Cyfeiriad Strategol?**

**Ydy ein gweledigaeth ar gyfer Gyrfa Cymru yn un y gallwch ei chefnogi?**

**Ydych chi'n cytuno â'r Datganiad o Genhadaeth?**

**Ydy ein Datganiad o Genhadaeth yn darparu sail gynhwysfawr y gallwn ddatblygu rôl Gyrfa Cymru arni?**

**Pa gamau y mae angen i ni eu cymryd ar y cyd ac yn annibynnol i gyflawni ein Gweledigaeth a'n Cenhadaeth?**

## NODAU STRATEGOL

| TROSGLWYDDO EFFEITHIOL | CYNHWYSIANT CYMDEITHASOL | GWELLA GWYBODAETH A SGILIAU | GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH | GYRFA CYMRU YR ISADEILEDD |
|---|---|---|---|---|
| Paratoi a chefnogi unigolion i benderfynu'n llwyddiannus ynglŷn â chyfleoedd gyrfa a chyfleoedd dysgu, a throsglwyddo'n effeithiol i mewn i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth gynaliadwy. | Cynyddu dyheadau unigolion a meithrin dull cadarnhaol o drin cyfranogiad o ddysgu gydol oes. | Annog unigolion ymhob cyfnod o'u bywydau i wella'u gwybodaeth a'u sgiliau, ac annog cyflogwyr i ddatblygu eu staff. | Gweithio'n rhagweithiol ag amrywiaeth eang o sefydliadau sy'n bartneriaid i gynhyrchu synergedd a gwerth ychwanegol i'r sefydliadau hynny a'u defnyddwyr. | Sicrhau mai Gyrfa Cymru sy'n arwain y farchnad ym maes cynllunio gyrfa gydol oes, a hynny'n arweiniad o ansawdd uchel. |

**Blaenoriaethau Strategol**

Wrth fynd ar drywydd ein cenhadaeth a'n nodau strategol, fe fydd Gyrfa Cymru yn cyfrannu at adfywiad economaidd a chymdeithasol rhanbarthol a chenedlaethol drwy hyrwyddo'r blaenoriaethau canlynol:

**Nod Strategol 1 – Trosglwyddo Effeithiol**

**Paratoi a chefnogi unigolion i benderfynu'n llwyddiannus ynglŷn â chyfleoedd gyrfa a chyfleoedd dysgu, a throsglwyddo'n effeithiol i mewn i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth gynaliadwy.**

Amcanion Strategol

1.1 Helpu unigolion i sicrhau'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i gynllunio wrth ddatblygu eu gyrfa, ac i ddewis yn ddoeth pan fydd cyfleoedd ar gael.

1.2 Sicrhau cydlyniad rhwng addysg a chyfarwyddyd gyrfaoedd a'r profiadau dysgu y mae cysylltiadau addysg busnes a'r cwricwlwm sy'n gysylltiedig â gwaith yn eu darparu.

1.3 Darparu gwasanaethau asesu, mentora a chefnogi ysgogol i unigolion wrth iddynt symud o un sefyllfa i'r llall, a helpu i leoli pobl mewn cyfleoedd addysg, gwaith a hyfforddiant addas.

1.4 Cyfrannu at y gwaith o gasglu, rhannu a deall gwybodaeth am gyfleoedd dysgu a'r farchnad waith.

| **Cwestiynau:**<br><br>**Ydy ein Nod Strategol ar gyfer Trosglwyddo Effeithiol yn eglur, yn gryno ac yn gynhwysfawr?**<br><br>**Pa weithredu ydych chi'n teimlo y dylai Gyrfa Cymru roi blaenoriaeth iddo er mwyn cyflawni'r Nod Strategol yma a'i Amcanion?**<br><br>**Ydy ein Hamcanion Strategol ar gyfer Trosglwyddo Effeithiol yn rhai y gallwch eu cefnogi?**<br><br>**Oes yna unrhyw Amcanion eraill yn y maes yma y dylem eu hystyried?** |
|---|

**Nod Strategol 2 – Cynhwysiant Cymdeithasol**

**Cynyddu dyheadau unigolion a meithrin dull cadarnhaol o drin cyfranogiad o ddysgu gydol oes.**

Amcanion Strategol

2.1 Hybu cydraddoldeb cyfle yn y gwasanaethau trwyddynt draw, a sicrhau bod cefnogaeth effeithiol i'r holl Gleientiaid, a bod hyn yn unol â'u hanghenion unigol.

2.2 Darparu cefnogaeth ychwanegol â thargedau ar gyfer y rhai sydd wedi cefnu ar ddysgu a gwaith ac ar gyfer unigolion ag anghenion arbennig.

2.3 Sicrhau bod yr holl gleientiaid yn gallu manteisio'n rhwydd ar y gwasanaethau a'r profiadau dysgu y mae Gyrfa Cymru yn eu darparu, drwy weithio mewn partneriaeth â chymunedau ac asiantaethau lleol a chenedlaethol.

**Cwestiynau:**

**Ydy ein Nod Strategol ar gyfer Cynhwysiant Cymdeithasol yn eglur, yn gryno ac yn gynhwysfawr?**

**Pa weithredu ydych chi'n teimlo y dylai Gyrfa Cymru roi blaenoriaeth iddo er mwyn cyflawni'r Nod Strategol yma a'i Amcanion?**

**Ydy ein Hamcanion Strategol ar gyfer Cynhwysiant Cymdeithasol yn rhai y gallwch eu cefnogi?**

**Oes yna unrhyw Amcanion eraill yn y maes yma y dylem eu hystyried?**

**Nod Strategol 3 – Gwella Gwybodaeth a Sgiliau**

**Annog unigolion ymhob cyfnod o'u bywydau i wella'u gwybodaeth a'u sgiliau, ac annog cyflogwyr i ddatblygu eu staff.**

Amcanion Strategol

3.1 Mynd ati i hybu buddiannau economaidd a chymdeithasol cyfarwyddyd gyrfaoedd a chysylltiadau addysg busnes, a hybu dull cadarnhaol o drin dysgu a datblygu parhaus gydol oes.

3.2 Dylanwadu ar ddarpariaeth cyfleoedd mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, ac ar eu perthnasedd i'r farchnad waith, yn bennaf drwy gymryd rhan yn weithredol mewn Consortia Cymunedol dros Addysg a Hyfforddiant (CCET) lleol.

3.3 Darparu cyfarwyddyd trylwyr ac asesiad o sgiliau er mwyn galluogi unigolion i sicrhau'r cymwysterau a'r sgiliau y mae eu hangen arnynt i ddod o hyd i waith addas, i symud ymlaen yn eu gyrfa ac i barhau i fod yn gyflogadwy.

3.4 Gweithio â chyflogwyr, yn enwedig cyflogwyr bach a chanolig eu maint (SMEs), i feithrin ymrwymiad yn eu plith i ddatblygu staff, gyda ffocws penodol ar bobl ar gyflogau isel/isel eu sgiliau.

**Cwestiynau:**

**Ydy ein Nod Strategol ar gyfer Gwella Gwybodaeth a Sgiliau yn eglur, yn gryno ac yn gynhwysfawr?**

**Pa weithredu ydych chi'n teimlo y dylai Gyrfa Cymru roi blaenoriaeth iddo er mwyn cyflawni'r Nod Strategol yma a'i Amcanion?**

**Ydy ein Hamcanion Strategol ar gyfer Gwella Gwybodaeth a Sgiliau yn rhai y gallwch eu cefnogi?**

**Oes yna unrhyw Amcanion eraill yn y maes yma y dylem eu hystyried?**

**Nod Strategol 4 – Gyrfa Cymru – Gweithio mewn Partneriaeth**

**Gweithio'n rhagweithiol ag amrywiaeth eang o sefydliadau sy'n bartneriaid i gynhyrchu synergedd a gwerth ychwanegol i'r sefydliadau hynny a'u defnyddwyr.**

Amcanion Strategol

4.1 Gweithio â phartneriaid i gynllunio a rhoi gweithgareddau ar waith fydd yn cefnogi dysgu gydol oes ac yn datblygu sgiliau, ac hefyd i gyflawni agenda Ymestyn Hawliau.

4.2 Mynd ati i weithio â chyflogwyr a darparwyr hyfforddiant wrth gynyddu lefelau sgiliau'r gweithlu a sicrhau bod unigolion yn fwy cyflogadwy.

4.3 Meithrin a gwella ansawdd gweithgareddau cysylltiadau addysg busnes a'u perthnasedd i'r cwricwlwm drwy gydweithio â chyflogwyr, ysgolion a cholegau.

**Cwestiynau:**

**Ydy ein Nod Strategol ar gyfer Gweithio mewn Partneriaeth yn eglur, yn gryno ac yn gynhwysfawr?**

**Pa weithredu ydych chi'n teimlo y dylai Gyrfa Cymru roi blaenoriaeth iddo er mwyn cyflawni'r Nod Strategol yma a'i Amcanion?**

**Ydy ein Hamcanion Strategol ar gyfer Gweithio mewn Partneriaeth yn rhai y gallwch eu cefnogi?**

**Oes yna unrhyw Amcanion eraill yn y maes yma y dylem eu hystyried?**

**Nod Strategol 5 – Gyrfa Cymru – yr Isadeiledd**

**Sicrhau mai Gyrfa Cymru sy'n arwain y farchnad ym maes cynllunio gyrfa gydol oes, a hynny'n arweiniad o ansawdd uchel.**

Amcanion Strategol

5.1 Cynyddu proffil cyfarwyddyd gyrfaoedd a chysylltiadau addysg busnes yn genedlaethol, dylanwadu ar ddatblygiad polisi a sicrhau bod Gyrfa Cymru yn ganolog i strategaethau ar gyfer dysgu gydol oes, cynhwysiant cymdeithasol a ffyniant economaidd.

5.2 Datblygu staff hyblyg, medrus, llawn cymhelliant yn rhwydwaith sefydliadau Gyrfa Cymru drwyddo draw.

5.3 Cyflawni datblygiad a gwelliant parhaus o fewn strategaeth ansawdd Gyrfa Cymru, a chyfrannu tuag at godi safonau ansawdd cenedlaethol yn ein sector.

5.4 Adolygu isadeiledd Gyrfa Cymru a'r opsiynau strategol ar gyfer y dyfodol yng nghyd-destun yr anghenion sy'n datblygu yng Nghymru.

**Cwestiynau:**

**Ydy ein Nod Strategol ar gyfer Gyrfa Cymru – yr Isadeiledd yn eglur, yn gryno ac yn gynhwysfawr?**

**Pa weithredu ydych chi'n teimlo y dylai Gyrfa Cymru roi blaenoriaeth iddo er mwyn cyflawni'r Nod Strategol yma a'i Amcanion?**

**Ydy ein Hamcanion Strategol ar gyfer Gyrfa Cymru – yr Isadeiledd yn rhai y gallwch eu cefnogi?**

**Oes yna unrhyw Amcanion eraill yn y maes yma y dylem eu hystyried?**

**Atodiad**

**Asesiad o'r Farchnad**

Nodir y prif ffactorau sy'n sail i gynlluniau strategol Gyrfa Cymru dan y penawdau eang canlynol:

1. Cymdeithasol/Economaidd
2. Y Farchnad Waith
3. Addysg a Hyfforddiant
4. Cyfle Cyfartal

**Ffactorau Cymdeithasol/Economaidd**

**Yr Economi**

Gwael fu perfformiad economaidd Cymru am nifer o flynyddoedd. Mae ei chyfraddau gweithgaredd economaidd yn isel, a cheir llawer o achosion o sgiliau a chymwysterau isel. *(Ffynhonnell - DRhS).*

Sail economaidd fach sydd yng Nghymru, ag ychydig yn unig o gwmnïau cynhenid mawr. Mae'n dioddef o 'ddiffyg entrepreneuriaeth', ac mae'n creu o leiaf 30% llai o fusnesau newydd na gweddill y DG. *(Ffynhonnell - Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth i Gymru).*

Mae incwm ar gyfartaledd yng Nghymru ymhlith yr isaf ym Mhrydain Fawr ac mae budd-daliadau nawdd cymdeithasol yn darparu cyfran uwch o'r incwm hwn. *(Ffynhonnell – Gwell Cymru).*

Mae'r drafft o'r Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol yn galw am greu economi sgiliau uchel, gwerth ychwanegol uchel fydd yn cynyddu'r Cynnyrch Mewnwladol Crynswth ac yn helpu i bontio'r gagendor cyfoeth yng Nghymru ei hun a rhwng Cymru a gweddill y DG.

**Ffactorau Cymdeithasegol**

Mae cwmpas a graddfa anniddigrwydd yn helaeth. Erbyn cyrraedd 14 oed, mae nifer arwyddocaol o ddisgyblion mewn perygl o ddod yn anniddig.

Oherwydd poblogaeth denau a chysylltiadau gwael, mae'n anodd manteisio ar gyfleoedd. Mae disgwyliadau llawer o'r rhai â diffyg cymwysterau da yn negyddol, a'u dyheadau yn gyfyngedig. Yn aml, anfantais ac eithrio cymdeithasol yw canlyniad hyn. *(Ffynhonnell – Y Wlad Dysg 2001).*

**Y Farchnad Waith**

Roedd Arolwg Sgiliau Dyfodol Cymru i'r farchnad waith yn rhagweld darlun cadarnhaol o'r holl alw am weithwyr o fewn sectorau penodol o'r economi. Amlygodd yr Arolwg hefyd meysydd lle bydd diffygion a bylchau o ran sgiliau.

Disgwylir y bydd y twf yn nifer y swyddi i'w weld yn gryfaf ym maes gwaith rhan amser ac mewn swyddi y mae merched wedi bod yn eu gwneud yn draddodiadol.

Mae'r farchnad waith wedi newid yn barhaol, gan alw am waith hyblyg a disgwyl y bydd pobl yn newid eu swyddi ac, o bosibl, eu gyrfa yn aml.  Mae hyn yn galw am ymrwymiad i ddysgu gydol oes drwy gynllunio gyrfa gydol oes.

**Cyflogaeth a Datblygu Adnoddau Dynol**

Seilir y strategaeth gyflogaeth yng Nghymru ar dri amcan sy'n gysylltiedig â'i gilydd: cynyddu'r cyflenwad o swyddi o ansawdd da; gwella sgiliau'r gweithlu; a helpu'r rheiny sy'n anweithredol yn y farchnad waith i gael gwaith.

Bydd y gwasanaethau y mae Gyrfa Cymru yn eu darparu wrth gefnogi'r strategaeth yn cynnwys cefnogi mentrau'r Fargen Newydd, hybu cyfleoedd hyfforddi a Phorth Ieuenctid, cefnogi datblygu'r gweithlu gan dargedu pobl mewn gwaith sgiliau isel, darparu gwasanaethau cyfarwyddyd i oedolion a llinell gymorth gwybodaeth Cyswlltdysgu, a chymryd rhan weithredol yn strategaethau Pobl mewn Cymunedau ac Ymestyn Hawliau, a'r Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth.

**Addysg a Hyfforddiant**

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi sefydlu rhaglen enfawr o gefnogaeth, datblygiad a newid ar gyfer addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

**Addysg cyn 16**

Fe fydd nifer o ddatblygiadau yn cael effaith ar waith Gyrfa Cymru.

1. Nifer gynyddol o ddisgyblion yn dilyn cwrs amgen yng Nghyfnod Allweddol 4.
2. Cyfeiriad gwleidyddol cryf i sicrhau bod parch cyfartal i lwybrau dysgu academaidd, technegol a galwedigaethol.
3. Fframwaith statudol eglurach ar gyfer ABCh, Addysg Gyrfaoedd ac Addysg sy'n Gysylltiedig â Gwaith.
4. Dull rhyngasiantaethol o hybu pwysigrwydd sgiliau hanfodol, o gynyddu ymwybyddiaeth o'r angen am entrepreneuriaeth, o fynd i'r afael ag anniddigrwydd, ac o hybu gwerth cymwysterau, yn enwedig ymhlith bechgyn.

**Addysg a Hyfforddiant Ôl-16**

Mae oes newydd ar gyfer dysgu ôl-16 yng Nghymru yn cael ei chreu, â'r nod o sicrhau bod cyfleoedd ar gael yn fwy eang.  Mae'r mecanweithiau i hybu'r newidiadau a ragwelwyd yn y Cynllun Gweithredu Addysg a Hyfforddiant bellach ar waith.

1. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol am weld nifer y rhai sy'n cymryd rhan mewn addysg a hyfforddiant ôl-16 yn cynyddu 10,000 y flwyddyn hyd at 2004, a 12,000 y flwyddyn rhwng 2004 a 2010.
2. Fe fydd TGCh yn cael ei defnyddio mwy i ddwyn mwy o bobl i mewn i ddysgu.
3. Mae dysgu sgiliau yn gadarn wrth galon yr agenda ddysgu.
4. Mae'n rhaid ymgymryd â datblygu polisïau a rhaglenni ar sail partneriaeth.

Mae Gyrfa Cymru yn ymroddedig i gyfrannu'n arwyddocaol at y gwaith y bydd partneriaethau rhanbarthol a lleol yn ei wneud er mwyn cyflawni'r agenda uchelgeisiau. Byddwn yn gweithio'n agos ag ELWa, y Gwasanaeth Cyflogi, y WDA, Consortia Addysg a Hyfforddiant lleol, sefydliadau addysgol, cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant a mudiadau gwirfoddol.

<u>**Cyfle Cyfartal**</u>

Mae Gyrfa Cymru yn cydnabod bod llawer o heriau yn parhau inni fynd i'r afael â hwy.

Mae rhyw yn parhau i ddylanwadu ar gyfleoedd yn y farchnad waith. Parheir i weld llawer o stereoteipio yn ôl rhyw mewn dewisiadau gyrfa.

Bydd llawer o bobl anabl yn wynebu rhwystrau sylweddol wrth geisio cymryd rhan yn y farchnad waith. Ymhlith y grwpiau penodol sydd dan anfantais mae cyn-droseddwyr, y digartref a phobl o'r cymunedau pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig.

Mae Gyrfa Cymru yn gwbl ymroddedig i gefnogi strategaethau wedi'u llunio i ddatblygu cymdeithas gynhwysol lle bydd pawb yn cael cyfle i gyflawni eu potensial.

Yn benodol, byddwn yn parhau i ddatblygu dulliau wedi'u seilio ar TGCh ryngweithiol i'w gwneud yn haws i ddefnyddio ein gwasanaethau.

**Cwestiynau:**

**Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o'r farchnad?**

**Oes yna unrhyw fylchau yn ein hasesiad rydych o'r farn y mae'n rhaid i ni eu hystyried?**

**Allwch chi ychwanegu at ein dadansoddiad?**